

## Bwletin Awdurdod S4C Ionawr 2003

### CYFARFOD AGORED – PORTHAETHWY

Fe gynhaliodd yr Awdurdod Gyfarfod Agored ar nos Fawrth, 3 Rhagfyr 2002 ym Mhorthaethwy lle bu rhyw 30 o bobl yn bresennol. Cadeiriwyd y cyfarfod gan Nic Parry, Aelod o Awdurdod S4C, a bu'r Prif Weithredwr, Huw Jones, a'r Cyfarwyddwr Rhaglenni, Huw Eirug, yn cymryd rhan yn y drafodaeth. Ymhlith y materion a drafodwyd oedd:

**Chwaraeon** - Nododd un o'r gwylwyr fod y ddarpariaeth chwaraeon ar y cyfan yn dda ond nid oedd yn credu fod y gwasanaeth criced yn arbennig o dda i gymharu â 10 mlynedd yn ôl. Esboniodd Huw Eurig fod hwn yn faes lle'r oedd gwasanaeth S4C yn adlewyrchu'r hawliau oedd gan Channel 4. Roedd nifer fawr o'r gemau mwyaf erbyn hyn dim ond ar gael ar Sky.

**Rhaglenni Cylchgrawn** – Gofynnwyd am fwy o sylw ar S4C i raglenni am ffasiwn a dillad (fel rhaglen Lorraine Kelly ar GMTV) gan ganolbwyntio ar siopau/dylunwyr ffasiwn yng Nghymru yn hytrach na chanolbwyntio ar ddylunwyr yn Llundain a thu hwnt. Cytunwyd bod *Pnawn Da* yn rhaglen dda ond nid oedd yr amser darlledu yn addas i rai gan eu bod unai'n gweithio yn ystod y dydd neu ddim eisiau eistedd i lawr i wyllo teledu yn y prynhawn gan eu bod yn brysur yn gwneud pethau eraill. Roedd pobl hefyd yn teimlo bod angen mwy o raglenni i ferched gyda'r nos neu yn gynnar yn y bore. Enghraifft o'r math o raglenni a ddaeth i sylw oedd y rhaglen Saesneg *What not to Wear*. Teimlad cyffredinol y gynulleidfa oedd bod *Heno* wedi bod yn rhaglen gylchgrawn ychydig yn fwy llwyddiannus na *Wedi 6*.

**Pobol y Cwm** - Mynegwyd gwahanol safbwyntiau ar *Pobol y Cwm*. Dywedodd un person ei fod wrth ei fodd gyda'r rhaglen ac yn wylwr ffyddlon ers y dechrau (roedd hyd yn oed yn gwyllo'r rhaglen omnibws ar ddydd Sul!). Roedd nifer sylweddol o'r gynulleidfa wedi colli diddordeb yn llwyr. Roedd y rhesymau am hyn yn cynnwys straeon diflas, y rhaglen wedi mynd yn sur, storïau yn drwm a thorcalonnus a dim digon o hiwmor, yn enwedig wrth gymharu â chyfnod cynnar y gyfres. Sylw arall oedd bod y rhaglen wedi dechrau gwella dros y misoedd diwethaf a bod angen parhau gyda'r ymdrech hyn. Cafwyd ymateb cymysg i'r syniad o symud *Pobol y Cwm* i slot hwyrach er bod teimlad nad oedd llawer o ddarpariaeth o raglenni Cymraeg ar gael yn hwyr yn y nos ar hyn o bryd.

**Comedi** – Roedd y gynulleidfa i gyd eisiau gweld mwy o gomedi ar S4C yn enwedig rhai fel *C'mon Midffild* a *Glas y Dorlan*. Ar y cyfan cafwyd ymateb lled positif i *Naw tan Naw* er bod rhai yn teimlo bod yr hiwmor efallai braidd yn Ogleddol.

**Newyddion** – Byddai rhai pobl yn dymuno gweld prif raglen newyddion S4C yn gynharach yn y noson. Yn gyffredinol teimlwyd bod mwy o sylw yn cael ei roi i'r de nac i'r gogledd. Mynegwyd y farn hefyd fod y newyddion weithiau yn ailadrodd newyddion Saesneg a bod angen cyflwyno newyddion gyda gogwydd fwy Cymreig.

**Rhaglenni Drama** - Roedd rhaglenni drama fel *Amdani*, *Palmant Aur* a *Pengelli* yn hynod o boblogaidd ymysg y gynulleidfa. Roedd *Amdani* yn plesio oherwydd bod y cymeriadau yn dda a'r straeon yn eu denu i wyllo wythnos ar ôl wythnos. Nid oedd ymateb mor bositif i *Treflan*. Sylwadau un o'r gwylwyr oedd bod yna deimlad tywyll a digalonus i'r gyfres. Dywedodd gwylwr arall bod angen dyfalbarhau i wyllo rhaglenni drama gan eu bod yn dueddol o wella ar ôl y penodau cyntaf a'i fod yn cymryd amser i ddod i arfer gyda'r dramâu ac adnabod a deall y plot a'r cymeriadau cyn dechrau mwynhau. Dymunai'r gynulleidfa weld.... "*Wythnos nesaf ar...*" ar ddiwedd y rhaglenni drama i roi rhagflas o beth fyddai'n digwydd yn y benod nesaf. Ar y cyfan, roedd y gynulleidfa yn mwynhau dramâu cyfnod a soniwyd am raglenni megis *Y Wisg Sidan* a *Lleifior* fel enghreifftiau poblogaidd.

**Byd Pws** - Nododd un o'r gwylwyr y byddai'n ei hoffi pe bai'r rhaglen hon yn parhau am awr yn hytrach na hanner awr. Nid oedd yn gweld hanner awr yn ddigon hir am raglen mor dda. Roedd rhaglen *Byd Pws* yn boblogaidd iawn ymysg y gynulleidfa ac roeddent yn mwynhau hiwmor y rhaglen a chymeriad Dewi Pws.

Diolchodd Nic Parry i bawb am fynychu'r noson ac am eu sylwadau. Cafodd y gynulleidfa y cyfle i fynd o amgylch set Rownd a Rownd a gofyn unrhyw gwestiynau pellach dros baned yn y caffi ar y set.

\*\*\*\*\*

## **CYFARFOD BUSNES – 20 RHAGFYR**

### **Ymweliad yr Arglwydd Currie, Cadeirydd OFCOM**

Adroddwyd ar ymweliad yr Arglwydd Currie a'r Athro Ian Hargreaves â S4C ar 6 Rhagfyr. Nodwyd bod cyfarfod defnyddiol iawn wedi'i gynnal a manteisiwyd ar y cyfle i esbonio a thrafod ymateb S4C i'r drefn rheoleiddio newydd.

### **Y Mesur Cyfathrebu**

Cyfeiriwyd at bapur briffio wedi'i baratoi ar gyfer yr Aelodau gan y Cyfarwyddwr Materion Corfforaethol oedd yn adrodd ar gynnydd y ddeddfwriaeth gyfathrebu. Yn benodol, talwyd sylw i'r elfennau hynny o'r ddeddfwriaeth yr oedd S4C a diddordeb arbennig ynddynt a phryd y byddai'r materion hyn yn cael eu dadlau yn y Senedd. Cytunwyd y dylid gosod eitem benodol ar agenda'r cyfarfod nesaf i drafod y sefyllfa ddiweddaraf ar ystyriaethau Pwyllgor Sefydlog Ty'r Cyffredin.

### **Aelodaeth yr Awdurdod –**

- (a) Janet Lewis-Jones – Cyfeiriwyd at y cinio a gynhaliwyd y noson gynt i dalu teyrnged i Janet Lewis-Jones wrth i'w chyfnod fel Aelod o'r Awdurdod ddod i ben. Soniwyd am ei holl waith caled, ei chyfraniad deallus a gwerthfawr iawn tuag at drafodaethau'r Awdurdod, a hefyd ei hymroddiad llwyr i S4C ers iddi ymuno yn 1992. Diolchwyd iddi hefyd am gadeirio'r Pwyllgor Archwilio mewn ffordd mor abl, trylwyr a chydwybodol dros gyfnod yn agos at ddeng mlynedd.

- (b) Mrs Carys Howell – Cyfeiriwyd at y ffaith taw Aelod newydd yr Awdurdod fyddai Mrs Carys Howell. Roedd Mrs Howell bellach wedi ymddeol ond fe fu'n gweithio i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol ac yn gyn-gynhyrchydd teledu a radio yn Lloegr. Yn wreiddiol o Ogledd Cymru roedd bellach yn byw yng Nghaerdydd. Fe fyddai Mrs Howell yn ymuno â'r Awdurdod ym mis Ionawr.

## **Sain Ddisgrifio**

Cynhaliwyd trafodaeth ar y gofynion ar ddarlledwyr cyhoeddus i gynnwys elfen gynyddol o sain ddisgrifio i gynorthwyo pobl ddall i fwynhau'r rhaglenni yn eu gwasanaethau. Cytunwyd y dylai swyddogion S4C drafod y gofynion hyn gyda'r awdurdodau perthnasol yn sgil y problemau parhaol o sicrhau fod y peirianwaith technegol boddhaol mewn lle er mwyn cyflwyno'r gwasanaeth i ddefnyddwyr.

## **Isdeitlau Cymraeg**

Atgoffwyd yr Aelodau bod prosiect ymchwil wedi'i gynnal ar y cyd gyda'r RNID yn gynharach yn y flwyddyn. Adroddwyd ar ganlyniadau'r ymchwil honno a'r ymchwil bellach i sefydlu beth oedd anghenion dysgwyr oedd hefyd yn defnyddio'r gwasanaeth. Penderfynwyd bod angen gwybodaeth, ac o bosibl ymchwil, pellach ar y pwnc yma cyn i Aelodau'r Awdurdod fedru dod at benderfyniad ar y ffordd dylai'r gwasanaeth ddatblygu yn y dyfodol.

## **Cynllun Corfforaethol 2003-05**

Ystyriodd yr Awdurdod y Cynllun Corfforaethol oedd yn cael ei argymhell ar gyfer y cyfnod 2003-05. Nodwyd bod strwythur y Cynllun wedi'i newid ychydig er mwyn adlewyrchu'n well prif amcan S4C o gyflwyno gwasanaeth teledu o'r safon uchaf. Heblaw am hynny roedd y Cynllun, yn gyffredinol, yn diweddarau'r amcanion a thargedau a ddefnyddiwyd ar gyfer Cynllun 2002-04. Nid oedd y trafodaethau am raglenni wedi arwain at unrhyw gyfeiriad strategol gwahanol ar gyfer y Sianel. Roedd y prif nod o gyflwyno ystod o raglenni o safon uchel yn ymaros ac roedd y newid yn strwythur y Cynllun ond yn tanlinellu'r ffaith fod pob agwedd o weithgaredd staff y Sianel yn cefnogi hyn. Er bod rhai o'r newidiadau i'r gwasanaethau rhaglenni yn fwy tactegol na strategol, roedd elfennau o'r trafodaethau ynglyn â'r dull comisiynu, ac ati, wedi'u hadlewyrchu yn y targedau. Y bwriad oedd i adrodd ar gynnydd yn erbyn y rhain dros gyfnod y Cynllun. Rhoddodd yr Awdurdod ei sêl bendith ar y Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2003-05, ar yr amod bod ystyriaeth bellach yn cael ei roi i ambell nod a tharged yn ôl sylwadau'r Aelodau.

## **Materion Eraill**

Yn ogystal trafodwyd/nodwyd y materion canlynol:

- Adroddiad y Prif Weithredwr – Materion er gwybodaeth
- Strategaeth ac Amserlen
- Adroddiad Rhaglenni
- Adroddiad Ariannol
- Adroddiad a Chofnodion y Grwp Cydymffurfiaeth a gynhaliwyd 6 Rhagfyr 2002
- Adroddiad Cwynion
- Adroddiad Ymchwil
- Adroddiad Rheolwr Gyfarwyddwr S4C Masnachol

- Cynllun Busnes S4C Masnachol.